

Digimap for Schools

‘Dinistrio’r dirwedd, difetha’r olygfa’

Alan Parkinson

Adnodd Addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 4



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: **Copaon Golygfaol**

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 4	Diogelu golygfeydd i fodloni lles pawb a phopeth	Yr Wyddfa, Ceunant Cheddar a lleoedd golygfaol eraill

Gwybodaeth a Sgiliau	Dod o hyd i lleoedd a defnyddio offer anodi
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Parciau Cenedlaethol, Rheoli Ardaloedd Gwledig, Twristiaeth, materion sy'n ymwneud â newid tirwedd, priodol i baratoi ar gyfer SDME, ail-frandio gwledig.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, cyfleu syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio mapiau a delweddau gweledol. Esbonio sut a pham mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid. Sut mae amgylcheddau a phobl yn newid?
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd.

Gweithgaredd

Yr Wyddfa yw'r copa uchaf yng Nghymru. Mae wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac mae'n gyrchfan boblogaidd iawn i dwristiaid. Mae'r gweithgaredd yn edrych ar y cyfleusterau sydd ar gael yn y parc i ymwelwyr, ac yn gofyn i fyfyrwyr ystyried pethau o blaid ac yn erbyn y caffi wedi'i adnewyddu ar y copa.

Roedd y drafodaeth ynghylch yr Wyddfa yn ymwneud â gwella cyfleusterau oedd eisoes yn bodoli. Felly, roedd yn annhebygol y byddai'r rhain yn cael eu gwaredu i ddychwelyd y copa i fod yn arunig. Mae cynlluniau yng Ngheunant Cheddar, sef ail leoliad yng Ngwlad yr Haf, i osod car cebl lle nad oes un yn bodoli ar hyn o bryd, ac maen nhw'n ei chael hi tipyn yn anoddach cael bobl i'w dderbyn.

Dylid rhannu'r gweithgaredd hwn fel bod y myfyrwyr yn edrych ar yr Wyddfa yn y dosbarth yn gyntaf, ac yna'n cyflawni gweithgaredd tebyg yn seiliedig ar Geunant Cheddar fel gwaith cartref.

Trafodwch y canlyniadau yn y dosbarth ac esboniwch fod y math hwn o drafodaeth yn cael ei chynnal mewn nifer o'n lleoedd hardd, fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. (Rhoddir dwy enghraifft arall yn 'Mynd gam ymhellach')

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae llawer o bobl o'r farn na ddylid caniatáu unrhyw weithgareddau newydd (yn enwedig y rheiny a allai ddenu nifer fawr o bobl, neu sydd angen 'strwythurau'), gan y byddant yn peryglu difrod parhaol i'r dirwedd. Ystyrir bod cadwraeth yn allweddol. Ond ciplun yn unig yw'r dirwedd o sut mae wedi edrych dros y canrifoedd ac mae wedi dod i fodolaeth trwy ryngweithiad dynol blaenorol. Gwrthod unrhyw newid pellach yw'r opsiwn diogel, ond beth yw'r risgiau trwy gadw pethau'r un peth?

Cyflwyniad

Hafod Eryri yw enw'r ganolfan ymwelwyr a'r caffi sydd wedi cael ei adeiladu ar y copa yn lle'r strwythur blaenorol. Roedd adeiladu'r ganolfan ychydig yn ddadleuol oherwydd maint y prosiect adeiladu mewn Parc Cenedlaethol ac ar gopa mynydd. Cludwyd y deunyddiau i fyny gan ddefnyddio Rheilffordd yr Wyddfa, sy'n atyniad pwysig arall i ymwelwyr yn yr ardal. Agorwyd y cyfleuster yn 2010.

Bydd y myfyrwyr yn dechrau trwy gasglu gwybodaeth o *Digimap for Schools* a *Geograph* i roi dealltwriaeth dda iddyn nhw am y lleoliad. Mae enghreifftiau ar gael mewn dogfen PowerPoint®. Mae dalenni pennau'n parhau ar gael ar gyfer yr Wyddfa a Cheunant Cheddar, sy'n darparu mwy o safbwyntiau.

Gan ddefnyddio'r acronym SPEED fel sylfaen ar gyfer eu trafodaethau, dylai'r myfyrwyr benderfynu i ba raddau y maen nhw'n credu bod canolfan ymwelwyr a chaffi'r Wyddfa yn '*dinistrio'r dirwedd, (a) difetha'r olygfa*'.

Y sylw hwn (*ruin the landscape, spoil the view*) yw slogan y grŵp protest *Keep Cheddar Gorgeous* sydd yn erbyn adeiladu'r car cebl yn y ceunant. Mae ail ran yr ymarfer i fyfyrwyr ystyried a ydyn nhw'n teimlo'r un peth am atyniad sydd heb gael ei adeiladu eto.

Mynd gam ymhellach

1. Beth os?

Gofynnwch i'ch myfyrwyr ddychmygu bod car cebl Ceunant Cheddar neu gaffi'r Wyddfa wedi bod ar agor ers 20 mlynedd a bod angen ei ailwampio, ond nid yw'r perchnogion yn gallu fforddio gwneud hyn. Ydyn nhw'n meddwl y byddai pobl leol yn ymgyrchu i godi arian i achub neu ddisodli'r atyniadau hyn, neu a fydden nhw'n hapus iddyn nhw gael eu dymchwel? Beth petai'r atyniadau hyn yn 100 oed?

2. Moors Valley a'r New Forest

Mae Parc Gwledig Moors Valley yn goedwig a pharc gwledig hynod boblogaidd.

Efallai bydd rhaid i ni gau'r Parc pan fydd y maes parcio'n llaw (yn fwyaf tebygol rhwng 12pm a 2pm). Byddwn yn agor unwaith eto cyn gynted ag y bo gennym ni ddigon o leoedd parcio (fel arfer, ar ôl oddeutu awr i awr a hanner).

Mae Moors Valley wedi'i leoli ychydig y tu allan i Barc Cenedlaethol New Forest, ond mae'n well gan bobl â phlant Moors Valley yn aml. Mae un rhiant yn esbonio.

Mae'n drueni achos, i gyrraedd Moors Valley, rydym ni'n gyrru trwy New Forest. Yn Moors Valley, mae rhywbeth o gwmpas pob yn ail gornel, weithiau, mae'n rhywbeth syml fel boncyffion i blant eu dringo, ond maen nhw'n cadw eu diddordeb ac yn eu tynnu nhw ymlaen.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Yn y New Forest, mae ardaloedd hir heb ddim byd i ddenu sylw plant, ac yn gyflym iawn, byddan nhw'n gofyn 'faint yn bellach'. Dw i ddim yn deall pam na all New Forest fod ychydig mwy fel Moors Valley, mae llawer yn fwy a gallai ddenu llawer mwy o bobl. Rwy'n siŵr y gellid trefnu ychydig o deithiau cerdded i fod ychydig yn fwy cyfeillgar i blant. Mae gweithgareddau cyffrous, fel cerdded ar raffau, ar gael yn y ddau le, ond mae'r rhain yn rhy ddrud i ni.'

<http://www.moors-valley.co.uk/planning-your-visit/>

<http://www.newforestnpa.gov.uk/>

3. Dim gwifren sip yn Ardal y Llynnoedd

Mae cynlluniau i osod gwifren sip milltir o hyd am gyfnod dros dro ar fynydd yn Ardal y Llynnoedd wedi cael eu gwrthod. Fe wnaeth pwyllgor cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd wrthod y cynnig ar gyfer gwifren sip yn Chwarel Lechi Honister.

Fe wnaeth saith aelod bleidleisio yn erbyn y cynnig ac roedd pedwar o'i blaid. Petai'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus, byddai dwy wifren sip wedi cael eu gosod ger copa Fleetwith Pike ac yn dilyn llwybr hen raffordd awyrol Lancaster. Dywedodd y rheiny a oedd yn cefnogi'r cynnig y byddai wedi caniatáu i ymwelwyr ddychwelyd i waelod yr atyniad ymwelwyr heb ddifrodi'r amgylchedd alpaidd bregus ar droed.

Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd wedi gwrthod cynlluniau'n flaenorol a gyflwynwyd yn 2010, gan yr oeddent o'r farn y byddai'n niweidiol i'r amgylchedd. Byddai'r wifren sip arfaethedig yn y chwarel wedi dyblygu gosodiad tebyg a oedd wedi bodoli yno mwy nag 80 mlynedd yn ôl. Syniad Mark Weir oedd ei ailgyflwyno, a oedd yn rhedeg y chwarel lechi ar frig Honister Pass. Bu farw Mr Weir mewn damwain hofrennydd yn agos at y chwarel ym mis Mawrth 2011.

Fe wnaeth siaradwyr ym mhencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd yn Kendal gyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig newydd.

Fe wnaeth cynrychiolwyr o gynghorau plwyf a Ffrindiau Ardal y Llynnoedd, a'r mynyddwr o Cumbria, Syr Chris Bonington, siarad o blaid y gosodiad. Dywedodd fod y cynllun ar raddfa lai newydd yn briodol a byddai'n achosi ychydig iawn o lygredd sŵn.

Fodd bynnag, dywedodd cynllunwyr y Parc Cenedlaethol bod 'egwyddor sylfaenol' yn y fantol, ac nid copau mynyddoedd oedd y lleoedd iawn ar gyfer gweithgaredd o'r fath.

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-cumbria-20890063>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol Creative Commons Attribution



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Gweithgaredd: ‘Dinistrio’r dirwedd, difetha’r olygfa’

Caffi a chanolfan ymwelwyr yr Wyddfa

1. Amlygu lleoliad yr Wyddfa. Archwilio manylion gwahanol copa’r mynydd a’r ardal o’i gwmpas ar raddfeydd map gwahanol. Amlygu lleoliad y caffi ar y copa.

2. Edrychwch ar rai lluniau a darllenwch am y parc gan ddefnyddio’r dolenni canlynol.

Tu mewn y ganolfan ymwelwyr <http://www.snowdonrailway.co.uk/hafod-eryri-snowdon-summit-visitor-centre>

Yr olygfa panoramig o’r copa <http://www.eryri-npa.gov.uk/home/Snowdon-Summit-360>

Lluniau answyddogol <http://www.geograph.org.uk/article/Snowdon-Snowdonia-National-Park>

Llun o’r HEN gaffi a dynnwyd ym 1980 <<http://www.snowdonwales.co.uk/wyddfa05.html>>

Roedd adeiladu’r caffi’n ddadleuol. Roedd strwythur wedi bod ar y copa ers nifer o flynyddoedd, ond nid oedd pawb wedi’u darbwyllo y dylai fod yno.

Defnyddiwch y map, a’r pennau parablus, i archwilio’r pethau cadarnhaol a negyddol a amlygir gan yr ymwelwyr i’r Wyddfa. Ynghylch y caffi ger y copa.

Defnyddiwch yr acronym SPEED i’ch helpu chi i ysgrifennu amdano.



Delwedd: Alan Parkinson

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Pennau Parablus (Yr Wyddfa)

Rwyf wedi ymweld â'r Wyddfa sawl gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n mwynhau'r olygfa hardd a'r golygfeydd syfrdanol, yn ogystal â'r her o gerdded i'r man uchaf yng Nghymru, ond rwyf bob amser yn teimlo'n siomedig pan rwy'n cyrraedd y copa. Wrth gwrs, rwy'n cyfeirio at y caffi ar y copa: byncher conchrid sy'n difetha'r mynydd. (Tony)

Fel unigolyn lleol, rwyf o blaid ailddatblygu'r caffi ar y copa. Rwy'n cytuno yr oedd yr adeilad blaenorol yn edrych ychydig yn aflêr. Roedd ymholiad cyhoeddus, a oedd yn cynnwys pobl leol., cerddwyr a thwristiaid, o blaid ailddatblygu: ychydig bach o bobl yn unig oedd eisiau gwaredu'r adeilad. Gobeithio bydd y cynllun cyfoes yn parhau i weithredu fel atyniad pellach i dwristiaid, gan ddarparu hwb sydd ei angen yn fawr ar economi'r ardal. (Ingrid)

Yn sgil yr ailddatblygiad, rwy'n teimlo colled fawr. Cafodd yr adeilad gwreiddiol ei ddylunio gan Syr Clough Williams-Ellis, sef creawdwr pentref hardd Portmeirion, felly mae ychydig bach o dreftadaeth ddiwylliannol wedi cael ei cholli, yn ogystal â'm hatgofion annwyl o yfed paned gref o de ar y copa! Rwy'n falch bod adeilad arall yn mynd i ddod yn ei le. Mae angen lle addas ar genedlaethau'r dyfodol i orffwys, cael diod ac edmygu'r golygfeydd... (Rob)

Mae angen i ni gofio bod copa'r Wyddfa'n atyniad mawr i dwristiaid yng Nghymru, felly mae'n rhaid i ni ddarparu ar gyfer cerddwyr profiadol a'r twristiaid hynny sy'n teithio i fyny ar y trê. Mae'r ailddatblygiad gwerth deng miliwn o bunnoedd llawer yn fwy deniadol a llai amlwg ar y copa. Mae'r adeilad wedi cael ei ddylunio i fod yn ynni effeithlon a defnyddio carreg sy'n ategu'r dirwedd naturiol. Byddai cael gwared ar y caffi yn golygu colli 58 o swyddi, ond bydd y datblygiad newydd yn creu 20 o swyddi ychwanegol. Mae gweithwyr a chontractwyr lleol yn cael eu defnyddio yn ystod y broses adeiladu hefyd. (June)

Nid wy'n poeni am y torfeydd o bobl yn yr haf, y rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd ar y trê, ond pan fyddaf yn cyrraedd y copa, rydw i eisiau cau'r bobl eraill sydd o'm cwmpas allan o'm meddwl a chael ymdeimlad o fod yr unig un yno, bod ar fy mhen fy hun yn y dirwedd arw hon. Yn anffodus, nid wy'n gallu gwneud hynny gyda chymaint o bobl yno. (Sally)

Fel ymwelydd, rwyf bob amser wedi bod yn hoff o'r caffi ar y copa, er yr oedd llawer yn ei gasáu, gan gynnwys y Tywysog Charles, a wnaeth ei alw yn y slym uchaf ym Mhrydain, mae'n hel atgofion melys o deithio i'r copa ar y trê a gweld tirwedd hardd Cymru. (Dennis)

Rwy'n deall bod y caffi wedi cael ei ailddatblygu, ond pam ffwdanu? Byddai'n well cael gwared arno! Beth yw ei ddiben? Sut mae'n gwella'r dirwedd sydd eisoes yn hardd? Pam fyddai unrhyw un yn dymuno eistedd mewn caffi sy'n fawr gwell na chaffi gywyrw lorïau? (Anthony)

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Ceunant Cheddar

Mae Ceunant Cheddar wedi bod yn gyrchfan i dwristiaid ers y 19^{eg} ganrif ac mae'r dref yn wynebu'r dewis o ganiatáu i'r gostyngiad cyson yn nhwristiaeth y ceunant i barhau, neu gytuno i ddatblygu ychydig ar y ceunant. Heb dwristiaeth, bydd Cheddar yn bennaf yn dref cymuno i Fryste, gydag ychydig o olygfeydd braf gerllaw a fydd yn denu cerddwyr a dringwyr.

Mae Ystad Longleat yn rheoli ochr ddeheuol y ceunant, sy'n cynnwys ogofâu byd enwog, a'r rhan fwyaf o elfen fasnachol yr atyniad naturiol buddiol. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar yr ochr ogleddol, ac mae wedi gwrthod caniatâd i'r car cebl redeg dros ei rhan hi.

Mae Ystad Longleat yn dweud, yn wahanol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sef elusen sy'n gymwys i gael grantiau, ei bod yn gwmni preifat sy'n gorfod cynhyrchu incwm i warchod ei rhan hi o'r ceunant. Mae pawb yn cytuno bod y safle wedi dirywio, ond mae rhai pobl yn awgrymu bod hyn yn fwrriadol er mwyn gwneud i'r cynlluniau ymddangos yn fwy deniadol.

<http://www.keepcheddargorgeous.co.uk/65.html> – Gwefan protestwyr

<http://www.cheddargorge.co.uk/future-plans> – Gwybodaeth am y cynlluniau

Crynodeb o'r prif bryderon

- 1) Effaith weledol yr orsaf ar y copa.** Pryder yn arbennig os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys canolfan ymwelwyr/caffi gweddol fawr ar y copa, yn enwedig os gellir ei weld o waelod y ceunant.
- 2) Parcio/traffig ymwelwyr.** Mae problemau eisoes yn lleol ar ddiwrnodau prysur/cyfnodau gwyliau brig a phryderon ynghylch parcio presennol yn y ceunant.
- 3) Dyfodol Melin Cox.** Caiff ei ystyried yn hyllbeth ac ni ddylai Longleat fod wedi caniatáu i'r adeilad ddirywio. Angen gwella ei olwg ar frys yn y tymor byr. Dylai'r adeilad gael ei gynnwys yn y cynigion yn y dyfodol efallai fel canolfan addysgu.
- 4) Effaith nodweddion gwneud yn difetha'r rhyfeddol naturiol hwn a'r golygfeydd.** Mae rhai gwrthwynebwyr yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw fath o ymyrraeth gwneud ar y dirwedd; mae rhai eraill yn pryderu mwy ynghylch lleddfau unrhyw effaith weledol a ffisegol ar yr amgylchedd.
- 5) Ffordd fynediad i'r copa.** Pryder arall yw y byddai angen ffordd yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r car cebl/gorsaf ar y copa cael ei adeiladu ar gyfer gwasanaethu a cherbydau mewn argyfwng.
- 6) Datblygiad ymgripiol.** Mae rhai pobl o'r farn, ar ôl i'r orsaf ar y copa gael ei chymeradwyo, bydd Longleat yn gwneud cais am ganiatâd ar gyfer datblygiadau eraill.
- 7) Effaith ar fywyd gwylt ac ecoleg warchoddedig.** A fydd mecanwaith y car cebl yn effeithio ar lwybrau hedfa ystumod a bywyd gwylt yn gyffredinol, yn ogystal â sŵn ac aflonyddwch ychwanegol?
- 8) Effaith ar lwybrau troed a dringwyr.** A fyddai'r strwythurau newydd yn effeithio ar fynediad/defnyddwyr clogwyni, fel dringwyr?
- 9) Buddion economaidd ehangach.** Ansicrwydd ynghylch a fydd cynnydd mewn gwariant gan ymwelwyr o fudd i Longleat yn unig neu a fydd o fudd i holl fasnachwyr/busnesau'r pentref.
- 10) Strategaeth docynnau/prisiau ar gyfer y car cebl.** Pryderon ynghylch prisiau tocynnau presennol a gwerth am arian i breswylwyr lleol.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Pennau'n Parablu - Ceunant Cheddar

Mae'n anonest awgrymu bod y cebl car hwn yn cael ei gynnig er budd ymwelwyr sy'n llai abl yn gorfforol. Ar wedd dyngarwch, mae'r hyn y mae Ystad Longleat yn bwriadu ei wneud i Geunant Cheddar yn fandaliaeth lwyr. (Elizabeth)

Mae Ceunant Cheddar yn serth mewn mannau ac yn hynod serth ym mhob man arall. Mae 274 o risiau i gyrraedd gwaelod y tŵr gwyllo. Mae ymwelwyr y dyddiau hyn yn disgwyl gallu cael mynediad. Os nad ydych nhw'n gallu gweld yr olygfa, ni fyddan nhw (ac nid ydyn nhw) yn dod. Mae niferoedd ymwelwyr wedi gostwng 90% ers yr 1970au. (Simon)

Mae fy nghalon yn suddo wrth edrych ar y cynnig hwn. Mae'r daith gerdded gylchol o gwmpas Ceunant Cheddar mor hardd, mor ddramatig, ac ydy, mor egniol, mae'n un o fy hoff ffyrdd i dreulio prynhawn - ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Bydd y car cebl yn difetha un o'n tirweddau lleo gwirioneddol naturiol a syfrdanol olaf. Ni fyddwn ni'n gallu mwynhau'r heddwch a'r tawelwch mwyach, atsain yr adar duon yn y glaw, y teimlad o ofod. (Gordon)

Hoffem weld pawb yn uno a gweld Cheddar yn cael ei roi yn hollol deg ar y map o brif atyniadau twristiaid, denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. (y Gymdeithas Fasnach)

Ateb cyflyn unwaith eto i ennill ychydig o arian yn gyflym, a chyfeirio ymwelwyr at fwyty newydd drud a fydd ar frig y ceunant rhywbryd yn y dyfodol. (Sam)

Mae hyn yn cyfateb â cheisio adeiladu car cebl tu blaen i Balas Buckingham. Mae Ceunant Cheddar o bwysigrwydd rhyngwladol... mae llawer yn well cadw unigrywiaeth y lle. Gellid gwneud mwy i gyflwyno'r ogof yn well a gallem wneud yr holl beth yn fwy o brofiad naturiol, yn fwy o brofiad bywyd gwyllt. (Helen Bonser-Wilton, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

Bron ym mhob grŵp teulu, fe fydd rhywun na fydd yn gallu dringo'r grisiau. Pam dylai mam-gu orfod eistedd ar y gwaelod, neu rywun arall golli allan gan fod rhaid iddyn nhw gadw llygad ar y goats baban. Nid oes neb yn awgrymu cael gwared ar y grisiau. Bydd unrhyw un sydd eisiau'r her, neu gyrraedd yno'n rhad ac am ddim, yn dal i allu gwneud hyn. Bydd y car cebl yn golygu y gall pawb weld y golygfeydd. (Chloe)

